# Ciplun ar dlodi yn Haf 2023

Medi 2023



## Gwybodaeth am Sefydliad Bevan

Sefydliad Bevan ydy melin drafod fwyaf dylanwadol Cymru. Rydyn ni'n creu mewnwelediadau, syniadau ac effaith sy'n helpu i roi terfyn ar dlodi ac anghydraddoldeb. Rydyn ni'n sefydliad annibynnol, gwybodus, symbylol a chynhwysol ym mhopeth a wanwn.

Fel elusen annibynnol gofrestredig, mae Sefydliad Bevan yn dibynnu ar haelioni unigolion a sefydliadau i wneud ei waith.

## Diolchiadau

Mae'r ddogfen hon yn rhan o brosiect gwaith ehangach a ddatblygwyd gan Sefydliad Bevan ar y cyd â Sefydliad Joseph Rowntree. Hoffai Sefydliad Bevan ddiolch i Sefydliad Joseph Rowntree am eu cefnogaeth barhaus.

## Sut gallwch chi helpu

Mae cannoedd o bobl a mudiadau ledled Cymru yn galluogi Sefydliad Bevan i ddweud eu dweud a chodi eu llais am dlodi, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder. Ni fydden ni'n bodoli heb eu cymorth nhw.

Er mwyn gwneud Cymru yn genedl ffyniannus i bawb, lle gall pawb wireddu eu potensial, pwy bynnag ydyn nhw a ble bynnag maen nhw'n byw, ymunwch â'n cymuned o gefnogwyr a chynorthwywyr.

Mae eich cymorth chi a chymorth pobl eraill yn gwneud gwahaniaeth i ni a gwahaniaeth i Gymru

**Cewch ragor o wybodaeth ar https://www.bevanfoundation.org/support-us/individuals/ neu anfon e-bost at: info@bevanfoundation.org i ddarganfod yr hyn allwch chi ei wneud t**

Llun y clawr: Delwedd stoc gan Shutterstock

Hawlfraint Sefydliad Bevan

Sefydliad Bevan, 145a Stryd Fawr, Merthyr Tudful CF47 8DP
info@bevanfoundation.org www.bevanfoundation.org

Rhif elusen gofrestredig: 1104191 Rhif Cofrestru'r Cwmni yng Nghymru: 4175018

# 1. Rhagarweiniad a chanfyddiadau allweddol

Bu'r tair blynedd diwethaf yn wirioneddol anodd i bawb bron yng Nghymru. Gydag argyfwng costau-byw yn dilyn yn syth ar ôl pandemig Covid, ni chafodd llawer o bobl nemor ddim seibiant rhag pwysau ariannol. Mae'r gyfres *Ciplun o Dlodi* gan Sefydliad Bevan wedi datblygu'n adnodd hanfodol i unrhyw un sydd am ddeall tlodi yng Nghymru.

Wrth i chwyddiant arafu o'r diwedd, gallai rhai obeithio bod y gwaethaf y tu ôl i ni. Mae'r adroddiad hwn, y chweched a gyhoeddwyd yn y gyfres *Ciplun,* yn ystyried a oes arwyddion bod pethau'n gwella o ran safonau byw pobl.

## 1.1 Canfyddiadau allweddol

Ni fu unrhyw welliannau mawr yn safonau byw pobl ar draws Cymru ers ein harolwg *Ciplun* diwethaf ym mis Ionawr 2023. Mae hyn yn golygu:

- Bod dros un teulu ymhob saith yng Nghymru (15%) weithiau, yn aml neu bob amser yn cael trafferth i fforddio eitemau hanfodol.
- Bod nifer fawr o bobl yn mynd heb hanfodion gan gynnwys dros un o bob pedwar (26%) yn bwyta prydau llai neu hepgor pryd cyfan.
- Bod dyled yn broblem sylweddol gyda 29% yn benthyg arian rhwng Ebrill 2023 a Gorffennaf 2023 ac 13% mewn ôl-ddyled ar o leiaf un bil am o leiaf un mis.
- Y gall effaith gronnol yr argyfwng costau byw wneud bywyd hyn yn oed yn fwy anodd i bobl. Mae dros bedwar o bob deg sydd wedi cwtogi ar maint eu prydau bwyd neu wedi hepgor prydau bwyd cyfan wedi benthyg arian gan ffrindiau a theulu (45% ) neu ar gerdyn credyd (42 %) er Ebrill 2023.
- Bod eu sefyllfa ariannol yn effeithio'n negyddol ar iechyd pobl. Nododd 45% o bobl hyn o ran ei hiechyd meddwl a nododd 28% hyn o ran eu hiechyd corfforol.

Yr un canfyddiad positif oedd bod gostyngiad yng nghanran y bobl heb wres yn eu cartref, gostwng o fod yn 39% ym mis Ionawr 2023 i 27% ym mis Gorffennaf 2023. Ni ddylai hyn fod yn achos dathlu gan fod pobl angen llai o wres yn ystod yr haf ac mae'r ffigwr yn debygol o godi yn ystod misoedd y gaeaf heb fod unrhyw welliant yng nghyllid y teulu.

Mae'r ffaith na chafwyd fawr o newid yn y safon byw yn ystod hanner cyntaf 2023 yn achosi pryder sylweddol am y modd y bydd pobl yn ymdopi yn ystod y misoedd sydd i ddod. Drwy gydol gaeaf 2022/23 darparwyd cymorth ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Er y cyhoeddwyd peth cymorth ychwanegol ar gyfer misoedd y gaeaf nesaf, mae'n ymddangos ei fod yn llawer llai nag oedd ar gyfer gaeaf 2022/23. O dderbyn bod nifer y bobl sy'n cael trafferth i ymdopi'n ariannol yn parhau'n eithriadol o uchel, gallai pobl wynebu lefelau caledi sylweddol y gaeaf hwn oni bai bod pob haen o lywodraeth yn newid cwrs neu bod gwelliant mawr yn digwydd yn sefyllfa ariannol pobl.

Mae'n wybyddus nad ydy argyfwng costau byw yn effeithio'n gyfartal ar bawb. Gydag arwyddion cyfredol yn awgrymu ei bod yn annhebygol y bydd ymyriadau eang eu graddfa, ar draws poblogaethau gyfan o ran costau byw, mae deall pa grwpiau sydd wedi cael ei heffeithio fwyaf yn bwysicach nag erioed. Mae'r arolwg yn amlygu bod rhai grwpiau wedi ei chael hi'n llawer anoddach nag eraill:

- **Pobl ar fudd-daliadau**: mae bron hanner y bobl sydd ar Gredyd Cynhwysol wedi hepgor prydau bwys neu wedi cwtogi ar faint y pryd o fwyd (49%) neu fynd heb wres yn eu cartref (45%).
- **Pobl sy'n Rhentu**: benthyciodd bron hanner o bobl sy'n rhentu arian o un ffynhonnell o leiaf yn ystod y tri mis hyd at Orffennaf 2023 (47% o bobl sy'n rhentu a 45% o rentwyr preifat), gyda 48% o rentwyr preifat yn hepgor neu dorri lawr ar brydau bwyd.
- **Pobl anabl**: mae dros un person anabl o bob deg y mae eu cyflwr yn eu cyfyngu i raddau helaeth wedi mynd heb wres (41%) neu wedi torri lawr ar bryd bwyd neu ei hepgor (46%).
- **Rhieni plant o dan 18 oed**: mae bron hanner (47%) o rieni wedi benthyg arian rhwng Ebrill a Gorffennaf 2023.

## 1.2 Gwybodaeth am y brîff hwn

Mae'r holl ffigurau a ddyfynnwyd yn y brîff hwn, oni nodir yn wahanol, yn dod oddi wrth YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,055 o oedolion. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 21 a 26 Gorffennaf 2023. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Cafodd y ffigurau eu pwysoli (oni nodwyd yn wahanol) ac yn gynrychiadol o holl oedolion Cymru (oed 16+).

## 2. Casgliad

Dydy argyfwng costau byw ddim wedi dod i ben. Fel y datgelwyd yn yr adroddiad hwn, mae nifer enfawr o bobl ar draws Cymru yn parhau i wynebu caledi sylweddol wrth iddyn nhw ymdrechu i gael dau ben llinyn ynghyd. Wrth i ni wynebu'r gaeaf, mae achos i ni bryderu y gallai'r sefyllfa waethygu.

Nid nawr ydy'r adeg i ddiddymu cymorth y bobl sy'n ei chael hi'n anodd i ymdopi â chynnydd mewn costau. Er efallai bod chwyddiant yn arafu, mae prisiau yn cynyddu'n gyflymach nag incwm. Mae llywodraethau'r DU a Chymru wedi cyhoeddi y bydd rhywfaint o gymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu. Croesewir Taliadau Costau Byw Llywodraeth y DU a thaliadau Cronfa Cymorth Dewisol mwy hael Llywodraeth Cymru. Yn ôl y cynlluniau cyfredol, fodd bynnag, bydd teuluoedd ar draws Cymry yn derbyn llai o gymorth nag a wnaethon nhw y gaeaf diwethaf. Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn dangos yr angen dybryd i wyrdroi'r cam hwn os ydyn ni am sicrhau bod gan bobl ddigon i arian i brynu bwyd ac i wresogi eu cartrefi.

Os na cheir cymorth ar gyfer y boblogaeth gyfan dros y misoedd nesaf, mae'r adroddiad hwn wedi tynnu sylw at ba grwpiau sydd angen eu targedu fwyaf. Mae pobl sy'n derbyn budd-daliadau, rhentwyr, pobl anabl y mae eu cyflwr yn eu cyfyngu i raddau helaeth a rhieni plant o dan 18 oed, lawer mwy tebygol o wynebu caledi na'r boblogaeth ehangach. Dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraethau lleol sicrhau bod y grwpiau hyn o leiaf yn derbyn rhagor o gymorth.